OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif 638 (Cy. 174)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A40, yr A470, yr A483, yr A487, yr A489, yr A458 a'r A5 (Lleoliadau Amrywiol ledled Cymru) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *3 Mehefin 2016* |
| *Yn dod i rym* | *15 Mehefin 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Rhaglan – Llanymddyfri (yr A40), Cefnffordd Caerdydd – Llangurig (yr A470), Cefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483), Cefnffordd Abergwaun – Bangor (yr A487), Cefnffordd Caersŵs – Machynlleth (yr A489), Cefnffordd yr Amwythig – Dolgellau (yr A458) a Chefnffordd Llundain – Caergybi (yr A5) ("y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd sy'n deillio o gludo llwythi anwahanadwy annormal.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Mehefin 2016. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A40, yr A470, yr A483, yr A487, yr A489, yr A458 a'r A5 (Lleoliadau Amrywiol ledled Cymru) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" (*"exempted vehicle"*) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith o

gludo'r llwythi anwahanadwy annormal sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y cludo" (*"transportation period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 15 Mehefin 2016 ac sy'n dod i ben pan fydd y gwaith o symud y llwythi anwahanadwy annormal wedi ei gwblhau;

ystyr "y darnau o'r cefnffyrdd" (*"the lengths of the trunk roads"*) yw'r darnau o brif gerbytffyrdd, cylchfannau a chilfannau Cefnffyrdd yr A40, yr A470, yr A483, yr A487, yr A489, yr A458 a'r A5 yn Siroedd Caerfyrddin, Powys, Ceredigion, Gwynedd a Wrecsam a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y cludo, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd, ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 3 Mehefin 2016

*Richard Morgan*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi.
**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru